cbac wjec

**TGAU**

**3000N20-1A**

**DYDD MERCHER, 22 MAI 2024 – BORE**

# CYMRAEG IAITH

## Uned 2

## Darllen ac Ysgrifennu: Disgrifio, Naratif ac Esbonio

**2 awr a'ch amser estynedig**



# DEUNYDD DARLLEN I'W DDEFNYDDIO GYDAG ADRAN A

© WJEC CBAC Cyf.



SJJ*(S24-3000N20-1A-MLP-A3-36)

## DARN DARLLEN 1
## ARWYDDION LLWYBRAU YNG NGHYMRU

**Mae'r arwyddion canlynol yn dangos y gwahanol fathau o lwybrau yng Nghymru.**

| | |
|---|---|
| **Llwybr Troed Cyhoeddus**  | **I gerddwyr a phobl sy'n defnyddio offer symud.**<br><br>**Saeth felen yw'r arwydd ar gyfer y llwybr hwn.** |
| **Llwybr Ceffyl**  | **I gerddwyr, pobl sy'n defnyddio offer symud, beicwyr a phobl sy'n marchogaeth ceffylau.**<br><br>**Saeth las yw'r arwydd ar gyfer y llwybr hwn.** |

(Trowch y dudalen)

| | |
|---|---|
| **Llwybr Cyfyngedig**  | **I gerddwyr, pobl sy'n defnyddio offer symud, beicwyr, pobl sy'n marchogaeth ceffylau a cherbydau sy'n cael eu tynnu gan geffylau.**<br><br>**Saeth borffor yw'r arwydd ar gyfer y llwybr hwn.** |
| **Llwybr Cenedlaethol**  | **I gerddwyr a phobl sy'n defnyddio offer symud. Mae rhai rhannau hefyd yn addas i feicwyr a phobl sy'n marchogaeth ceffylau.**<br><br>**Mesen yw'r arwydd ar gyfer y llwybr hwn.** |

**(Trowch y dudalen)**

| | |
|---|---|
| Llwybr Arfordir Cymru Cenedlaethol | I gerddwyr a phobl sy'n defnyddio offer symud. Mae rhai rhannau hefyd yn addas i feicwyr a phobl sy'n marchogaeth ceffylau.<br><br>Cragen wen yw'r arwydd ar gyfer y llwybr hwn. |

(Trowch y dudalen)

# DARN DARLLEN 2
# TAITH GERDDED O NEBO I FRYN-LLIDIART

## Cofrestrwch ar gyfer taith gerdded o Nebo i Fryn-llidiart

**RHYBUDD: Mae'r llwybrau ar y daith hon yn gorsiog ac anwastad mewn mannau, felly cofiwch wisgo esgidiau addas.**

**Manylion pwysig:**

- **Cychwyn am 10.30 am o Ysgol Nebo. Mae lle parcio addas ar gael yno.**
- **Hyd y daith yw tua 3 awr.**
- **Angen esgidiau addas, fflasg a phicnic.**
- **Angen cofrestru: anfonwch e-bost at gwion.yrorsaf@gmail.com**

(Trowch y dudalen)

**Mae'r daith yn cael ei threfnu gan fenter Yr Orsaf.**

**Fe welwn ni chi yn Nebo!**



**(Trowch y dudalen)**

# DARN DARLLEN 3
# LLWYBRAU BEICIO LLYN BRENIG







**“Rydw i’n ymweld â Llyn Brenig yn gyson i fynd ar fy meic. Mae’r llwybrau’n wych a’r golygfeydd yn fendigedig.”**

(Adolygiad ar wefan Tripadvisor – 2022)

Mae gan Lyn Brenig amrywiaeth o lwybrau beicio ac mae pob un yn manteisio’n llawn ar yr amodau a’r tirwedd perffaith. Dyna pam mai ni yw un o’r lleoedd mwyaf poblogaidd i feicio yng ngogledd Cymru, neu’r wlad efallai!

(Trowch y dudalen)

**Does dim ots beth yw eich oedran neu eich sgiliau beicio, mae Llyn Brenig yn ffordd hwyliog ac iach o archwilio rhai o’r 2500 o erwau sydd o gwmpas y llyn. Mae rhwydwaith o lwybrau ag arwyddbyst ar gael i chi, neu gallwch ddewis eich llwybr eich hun os yw hynny’n well gennych.**

**Mae mannau parcio beiciau ar gael.**

## Llogi Beiciau

**Mae gennym amrywiaeth o feiciau i blant ac oedolion, e-feiciau a threlars.**

**Maen nhw ar gael i’w llogi rhwng 9.00 am a 3.00 pm ac rydym ni ar agor 7 diwrnod yr wythnos dros fisoedd yr haf. Mae’n rhaid archebu ymlaen llaw rhwng mis Tachwedd a Mawrth.**

**(Trowch y dudalen)**

**Rydym ni'n argymell archebu lle ymlaen llaw bob amser rhag cael eich siomi, yn arbennig os ydych chi'n dod fel grŵp.**


**Nodwch: rhaid dangos tystiolaeth o bwy ydych chi adeg llogi, fel pasbort, trwydded yrru neu gerdyn banc dilys.**

## Prisiau (fesul 1 awr)

**Beic Plentyn £9.00**
**Beic Oedolyn £16.00**
**E-feic £25.00**
**Trelar £12.00**

(Trowch y dudalen)

# DARN DARLLEN 4
# CADW – LLWYBR ARFORDIR CYMRU




Cymru yw'r unig wlad yn y byd sydd â llwybr troed sy'n amgylchynu ei harfordir cyfan. Eleni mae Llwybr Arfordir Cymru yn dathlu 10 mlynedd ers ei sefydlu. Rydym yn cydweithio â Llwybr Arfordir Cymru i nodi'r achlysur er mwyn dathlu'r amrywiaeth eang o safleoedd treftadaeth sydd ar hyd y llwybr 870 milltir.

Rydym wedi creu cyfres o 20 o deithiau pwrpasol sy'n addas ar gyfer y teulu oll. Mae'r teithiau hyn yn amlinellu'r llwybrau cerdded gorau ar hyd yr arfordir. Ar y teithiau gallwch ddarganfod 16 o gestyll pwysig ein gwlad, yn ogystal â sawl bryngaer, cylch cerrig a siambr gladdu.

(Trowch y dudalen)

Rydym i gyd yn gyfarwydd â manteision iechyd a lles sy’n gysylltiedig â bod yn yr awyr agored, yn enwedig aer y môr. Dyma’r ateb perffaith i leddfu straen a phryderon bywyd modern. Mae cerdded yn ymarfer aerobig hamddenol sy’n gwella iechyd cardiofasgwlaidd, yn cryfhau’r cyhyrau, ac yn gwella hyblygrwydd. Yn ogystal, mae’r awyr agored yn cael effaith gadarnhaol ar ein lles meddyliol, a gall cerdded ynghanol prydferthwch Llwybr Arfordir Cymru godi’r ysbryd a gwella hwyliau.

Mae sawl rhan o’r llwybr hwn yn dechrau erydu erbyn hyn ac yn hynod heriol, hyd yn oed i gerddwyr profiadol. Er gwaethaf yr her, gallwn eich sicrhau y byddwch wrth eich bodd gyda’r golygfeydd arbennig o’r traethau euraidd.

(Trowch y dudalen)

Mae 88% o ymwelwyr Llwybr Arfordir Cymru yn nodi bod defnyddio'r llwybr yn cyfrannu at eu gwerthfawrogiad o Gymru a'i diwylliant. Cewch ddysgu am hanes rhyfeddol Cymru o gaer Rufeinig a chytiau Mynydd Tŵr yng Nghaergybi, Ynys Môn i gaerau hynafol fel Castell Talacharn a Chastell Cas-gwent. Cewch gyfle hefyd i gael seibiant wrth ymweld â'r nifer o gaffis, siopau a thafarndai sydd i'w darganfod mewn sawl lleoliad ar hyd y llwybr.

Mae'r teithiau'n addas ar gyfer pobl o bob oed a gallu. Cewch groeso cynnes gan bobl leol wrth i chi droedio i ffwrdd o'r arfordir drwy ffermydd a thiroedd preifat o dro i dro. Mae croeso i gŵn ar y llwybrau ond cofiwch gadw eich cŵn ar dennyn, yn enwedig pan fyddwch yn cerdded ar dir amaethyddol.

(Trowch y dudalen)

**I gael mynediad at y teithiau ac i gychwyn ar eich antur arfordirol hanesyddol nesaf, ewch i ymweld â'n gwefan www.llwybrarfordir.cymru**

**(Trowch y dudalen)**

# DARN DARLLEN 5
# DATHLU DEGAWD LLWYBR ARFORDIR CYMRU

**CYMRU FYW**

Hafan | Cylchgrawn | Gwleidyddiaeth | Gog-Orll | Gog-Ddwy | Canolbarth | De-Orll | De-Ddwy

## DATHLU'R 10!

Eleni, mae hi'n ddeng mlynedd ers sefydlu Llwybr Arfordir Cymru. Roedd yr her yn un anferth wrth sefydlu'r llwybr ond mae'n gyfraniad sylweddol at ddiwylliant a threftadaeth ein gwlad. Yn ystod y deng mlynedd diwethaf mae unigolion, cyfeillion a theuluoedd wedi manteisio ar y llwybr er mwyn ymweld â llefydd hanesyddol a phwysig.

(Trowch y dudalen)

## HWB I’R ECONOMI

Mae’r llwybr ar hyd arfordir Cymru yn ymestyn am bellter o 870 o filltiroedd. Mae tua £1m yn cael ei wario’n flynyddol er mwyn cynnal a chadw’r llwybrau. Mae hyn yn hanfodol er mwyn hyrwyddo’r llwybr i gerddwyr newydd o bell ac agos. Er hyn, mae pryder ynglŷn â chyflwr rhannau o’r llwybr erbyn hyn, gyda’r tir yn erydu’n gyflym o ganlyniad i’r niferoedd sy’n defnyddio’r llwybrau.

Yn ôl ymchwil diweddar mae Llwybr Arfordir Cymru yn rhoi hwb o £84m i economi Cymru. Yn ogystal â hyn, dangosodd yr ymchwil bod 75% o’r bobl sy’n defnyddio’r llwybr yn dod o Gymru. Roedd 66% yn nodi mai’r golygfeydd

(Trowch y dudalen)

godidog oedd yn eu denu yn ogystal â manteision cerdded y llwybr i iechyd y corff a'r meddwl.

Yn ôl Nia Rhys Jones, cyd-gadeirydd Cymdeithas Twristiaeth Ynys Môn, "Mae'r llwybr yn un o'r prif atyniadau sy'n denu ymwelwyr i'r wlad. Mae'r llwybr o gwmpas Ynys Môn yn boblogaidd gydag ymwelwyr yn ogystal â'r bobl sy'n byw ar yr ynys."

(Trowch y dudalen)

# BUSNESAU LLEOL

Un busnes sydd yn elwa o'r cerddwyr ydy Gwesty Glanfa Teifi ger traeth Poppit yn Llandudoch. Ar hyn o bryd mae miliynau o bunnoedd yn cael eu gwario ar y gwesty i ehangu'r llety sydd ar gael. Bydd nifer yr ystafelloedd gwely yn cynyddu o 14 i 30 yn y pen draw.

Dywedodd rheolwr Gwesty Glanfa Teifi bod y llwybr yn denu pobl draw atyn nhw. Mae'n dweud iddynt benderfynu ehangu'r gwesty oherwydd bod disgwyl i fwy o bobl ddefnyddio'r llwybr yn y dyfodol.

(Trowch y dudalen)

# ELUSENNAU

**Mae eraill wedi defnyddio Llwybr Arfordir Cymru fel ffordd o godi arian. Fe gerddodd Catrin Davies o Gaerfyrddin yr 870 o filltiroedd y llynedd, er mwyn codi £6000 i elusen ym Mecsico.**

**"Dw i wedi gweld pob traeth yng Nghymru a dw i'n falch o hynny! Doedd hi ddim yn hawdd. Roedd rhannau o'r llwybr yng Ngheredigion yn serth iawn. Roedd hi'n her ond ro'n i yn teimlo mor falch fy mod i wedi cwblhau'r daith."**

**(Trowch y dudalen)**

# NID PAWB SYDD O BLAID

Nid pawb sy’n cefnogi’r cynllun i gael cerddwyr ar eu tir. Fe geisiodd un ffermwr atal y cynllun oherwydd bod y llwybr yn croesi rhan o’i dir a’i fod wedi cael llond bol ar bobl yn gadael eu cŵn yn rhydd. Mae’n bryderus nad yw pobl yn parchu ei anifeiliaid, ei dir na’r llwybr oherwydd eu bod nhw’n taflu sbwriel ac yn crwydro oddi ar y llwybrau. Mae’n erfyn ar bobl i barchu hawliau pobl leol, wrth sicrhau eu bod nhw’n dilyn yr arwyddion yn ofalus gan gadw eu cŵn ar dennyn a mynd â’u sbwriel gyda nhw.